# PAPURAU BUSNES

## Rhan I – Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar

## 28 Chwefror 2001

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn y Gymraeg**

(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog bennu targed y dylai pob bwrdd sy'n gwasanaethu cymuned lle mae mwy na 10% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fod ag o leiaf un aelod sy'n siarad Cymraeg, yn unol â'r "Polisi ar gyfer penodi Cadeiryddion a Chyfarwyddwyr Anweithredol i fyrddau awdurdodau iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS" (Y Cynulliad Cenedlaethol, Ionawr 2001). (WAQ10098)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff hi roi cyfarwyddyd i Gangen Penodiadau NHS y Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno dangosyddion i fonitro nifer yr aelodau o fyrddau sy'n siaradwyr Cymraeg, yn unol â'r "Polisi ar gyfer penodi Cadeiryddion a Chyfarwyddwyr Anweithredol i fyrddau awdurdodau iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS", (Y Cynulliad Cenedlaethol, Ionawr 2001) (WAQ10099)

Y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes unrhyw gynlluniau ar droed i adeiladu swyddfeydd newydd i Gyngor Sir Ddinbych o dan y fenter cyllid preifat. (WAQ10100)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A oes unrhyw gynlluniau ar droed i ail-leoli swyddfeydd Cyngor Sir Ddinbych ac, os oes, ymhle y byddant yn cael eu lleoli. (WAQ10101)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw hi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau i rannu Sir Ddinbych rhwng Conwy a Delyn. (WAQ10102)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all hi roi adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf ynghylch yr Adolygiad o Ffiniau Llangollen. (WAQ10103)

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch datblygu Marina yn y Pwynt, Biwmares. (WAQ10104)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar gyfer datblygu cyswllt rheilffordd newydd rhwng Bae Caerdydd a'r Rhwydwaith Rheilffyrdd Cenedlaethol. (WAQ10186)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all hi roi adroddiad ar unrhyw ddatblygiadau o ran gwella trafnidiaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru. (WAQ10187)

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd papurau arholiad cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer yr Arholiadau Sgiliau Sylfaenol newydd ac, os na fydd, beth yw'r rheswm. (WAQ10105)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ynghylch yr achosion o glwy'r traed a'r genau. (WAQ10106)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff ef ddatganiad ynglyn â'r camau rheoli argyfwng a gymerwyd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r achosion o glwy'r traed a'r genau. (WAQ10107)

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fyddai'r Gweinidog cystal â rhoi diffiniad o'r ardaloedd a dargedwyd yn benodol gan y cyn Ysgrifennydd Gwladol, o ran derbyn 50% o'r mewnfuddsoddi y nodwyd ei fod y tu allan i Goridorau'r A55 a'r M4. (WAQ10116)